

Cyflawni rôl tyst mewn achosion cyfreithiol

1 Yn *Arfer meddygol da*,¹ rydym yn nodi:

- 11 Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â chanllawiau a datblygiadau sy'n effeithio ar eich gwaith.
- 12 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gyfraith, ein harweiniad a'r rheoliadau eraill diweddaraf sy'n berthnasol i'ch gwaith, a chydymffurfio â nhw.
- 14 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau'ch cymhwysedd.
- 72 Rhaid i chi fod yn onest ac yn ddibynadwy wrth roi tystiolaeth gerbron llysoedd neu dribiwnlysoedd. Rhaid i chi sicrhau na fydd unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi neu ddogfennau y byddwch yn eu hysgrifennu neu'n eu llofnodi, yn anghywir neu'n gamarweiniol.
- a Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i ddilysu'r wybodaeth.
- b Ni ddylech hepgor gwybodaeth berthnasol yn fwriadol.
- 73 Rhaid i chi gydweithredu gydag ymchwiliadau ffurfiol a gweithdrefnau cwyno, ac mae'n rhaid i chi gynnig yr holl wybodaeth berthnasol, gan ddilyn yr arweiniad yn nogfen *Cyfrinachedd*.
- 74 Rhaid i chi nodi cyfyngiadau'ch cymhwysedd a'ch gwybodaeth yn eglur os byddwch yn rhoi tystiolaeth neu'n cyflawni rôl tyst.

- ## 2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y mae modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn pan fyddant yn cyflawni rôl tyst proffesiynol neu dyst arbenigol. Os byddwch yn rhoi tystiolaeth fel tyst ffeithiol, heb fod hynny mewn ffordd broffesiynol (er enghraifft, fel tyst i ddamwain ffordd), rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 72

Arfer meddygol da. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

Dyletswyddau pob tyst

- 3 Mae meddygon yn cyflawni rôl pwysig yn y system gyfiawnder trwy gyfrannu tystiolaeth fel tystion arbenigol ac fel tystion ffeithiol.
- 4 Os byddwch yn cyflawni rôl tyst ffeithiol neu dyst arbenigol, mae gennych ddyletswydd i'r llys² a bydd y ddyletswydd hon yn drech nag unrhyw rwymedigaeth i'r unigolyn sy'n eich cyfarwyddo neu sy'n eich talu.³

Mae hyn yn golygu bod gennych chi ddyletswydd i weithredu mewn ffordd annibynnol ac i fod yn onest, yn ddibynadwy, yn wrthrychol ac yn ddiuedd. Ni ddylech ganiatáu i'ch safbwyntiau⁴ am berson effeithio ar y dystiolaeth neu'r cyngor y byddwch yn ei roi.

- 5 Rhaid i chi ddeall eich rôl fel tyst trwy gydol proses y llys. Rhaid i chi gydweithredu gyda gweithgarwch rheoli achos, gan sicrhau eich bod yn cydymffurfio gyda'r amserlenni er mwyn paratoi adroddiadau a mynychu cynadleddau, cyfarfodydd neu wrandawiadau llys.
- 6 Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw adroddiad y byddwch yn ei ysgrifennu neu dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi yn gywir, ac nad yw'n gamarweiniol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol er mwyn cadarnhau cywirdeb unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi, gan sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.
- 7 Efallai y bydd pobl nad oes ganddynt gefndir meddygol yn dibynnu ar eich cyngor a'ch tystiolaeth chi er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau. Pan fydd modd gwneud hynny heb gamarwain unrhyw un, dylech ddefnyddio iaith a therminoleg y bydd pobl nad ydynt yn meddu ar gymhwyster meddygol yn ei deall. Dylech esbonio unrhyw fyrfoddau a therminoleg feddygol neu derminoleg arall y byddwch yn ei defnyddio. Gall diagramau sy'n cynnwys labeli esboniadol fod yn ddefnyddiol.

Rhoi tystiolaeth fel tyst ffeithiol (tyst proffesiynol)

- 8 Bydd tystion ffeithiol (a elwir yn dystion proffesiynol hefyd) yn darparu tystiolaeth broffesiynol am eu canfyddiadau clinigol, eu harsylwadau a'u gweithredoedd, a'r rhesymau drostynt.
- 9 Fel tyst ffeithiol, dylai'ch tystiolaeth ysgrifenedig a llafar chi fod yn eglur ac yn gryno, ac mae'n rhaid iddi gael ei seilio ar gofnodion clinigol a nodiadau a luniwyd ar yr adeg berthnasol gymaint ag y bo modd. Gallwch gynnwys rhywfaint o farn am y canfyddiadau, ond dylech nodi'n eglur yr hyn sy'n cyfateb â thystiolaeth ffeithiol a'r hyn sy'n cyfateb â'ch barn chi, ar sail eich barn a'ch profiad proffesiynol.

Rhoi tystiolaeth fel tyst arbenigol

- 10 Rôl tyst arbenigol yw helpu'r llys gyda materion arbenigol neu dechnegol, y maent o fewn arbenigedd y tyst. Mae modd i dyst arbenigol ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys datganiadau ac adroddiadau gan y partiön eraill yn yr achos, cyn ffurfio a chynnig barn i'r llys.
- 11 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn deall yr union gwestiynau y gofynnir i chi eu hateb. Os bydd eich cyfarwyddiadau yn aneglur, dylech ofyn i'r sawl sy'n eich cyfarwyddo i esbonio. Os na fydd y cyfarwyddiadau yn eglur o hyd, ni ddylech gynnig cyngor neu farn arbenigol.
- 12 Dylech roi tystiolaeth a safbwyntiau arbenigol am faterion y maent o fewn eich cymhwysedd proffesiynol neu y mae gennych chi wybodaeth berthnasol amdanynt yn unig, er enghraifft, gwybodaeth am y safonau a natur yr arfer adeg y digwyddiad neu'r digwyddiadau y maent yn destun yr achos.⁵ Os na fydd cwestiwn neu fater penodol o fewn eich maes arbenigol chi, dylech wrthod ateb neu ateb hyd eithaf eich gallu, ond gan nodi'n eglur eich bod o'r farn bod y mater y tu hwnt i'ch cymhwysedd chi.⁶

- 13** Rhaid i chi gynnig barn wrthrychol a diduedd ac mae'n rhaid bod modd i chi ddatgan y ffeithiau neu'r tybiaethau y seiliwyd y farn honno arnynt. Os bydd amrediad o farn yn bodoli am fater, dylech roi crynodeb o amrediad y farn, gan esbonio sut y gwnaethoch chi ffurfio'ch safbwynt chi. Os na fydd gennych chi ddigon o wybodaeth er mwyn ffurfio casgliad am bwynt penodol, neu os bydd eich barn yn amodol (er enghraifft, o ganlyniad i dystiolaeth sy'n gwrthdaro), rhaid i chi nodi hyn mewn ffordd eglur.⁷
- 14** Os gofynnir i chi fynegi barn am berson heb i chi gael y cyfle i ymgynghori gyda nhw neu eu harchwilio, dylech esbonio unrhyw gyfyngiadau y gallai hyn eu rhoi ar eich barn. Dylai fod modd i chi gyfiawnhau'ch penderfyniad i gynnig eich barn.
- 15** Os byddwch yn newid eich barn am unrhyw fater perthnasol ar unrhyw adeg, mae gennych chi ddyletswydd i sicrhau bod y sawl sy'n eich cyfarwyddo, y parti arall a'r barnwr yn ymwybodol o hyn yn ddi-oed. Dylech ddweud wrth y cyfreithiwr sy'n eich cyfarwyddo, a ddylai ddweud wrth y bobl arall y bydd angen iddynt gael gwybod. Os na fydd y cyfreithiwr yn gwneud hyn, dylech ddweud wrth y llys eich bod wedi newid eich barn. Os nad ydych yn siŵr am yr hyn i'w wneud, dylech holi'r llys neu gael cyngor cyfreithiol.
- 16** Rhaid i chi barchu sgiliau a chyfraniadau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhoi tystiolaeth arbenigol, a pheidio gadael i'w hymddygiad nhw effeithio ar eich barn broffesiynol chi.

Nodiadau a chofnodion

- 17** Rhaid i chi baratoi nodiadau llawn a manwl ynghylch cyfarfodydd neu gyfweiliadau gyda'r bobl dan sylw yn yr achos, ar yr adeg pan fo digwyddiad yn digwydd neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny. Rhaid i unrhyw nodiadau neu adroddiadau y byddwch yn eu hysgrifennu gael eu hysgrifennu mewn ffordd deg a diduedd.

Deall eich rôl chi

- 18** Rhaid i chi ddeall a dilyn y gyfraith a'r codau ymarfer sy'n effeithio ar eich rôl chi fel tyst arbenigol. Dylech ystyried cael hyfforddiant ar gyfer y rôl pan fydd hyfforddiant o'r fath ar gael (er enghraifft, gan eich corff amddiffyn meddygol neu gan adran gyfreithiol eich cyflogwr). Yn arbennig, dylech sicrhau eich bod yn deall:
- a** sut i ysgrifennu adroddiad sy'n dilyn y gweithdrefnau a bennwyd gan y llysoedd
 - b** sut i roi tystiolaeth lafar.
- 19** Os bydd gennych chi arbenigedd neu brofiad o gyflawni rôl tyst arbenigol, dylech fod yn fodlon rhannu'ch gwybodaeth gyda chydweithwyr y gallent gael galwad i roi tystiolaeth mewn llys, er mwyn helpu i feithrin eu hyder a'u parodrwydd i roi tystiolaeth yn y dyfodol.

Datgelu a diogelwch gwybodaeth

- 20** Rhaid i chi gymryd yr holl gamau rhesymol er mwyn darllen yr holl bapurau perthnasol a'u cadw'n ddiogel pan fyddant yn eich meddiant chi.
- 21** Os byddwch yn cael gwybodaeth am berson ac os bydd gennych chi reswm dros gredu nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd i'r wybodaeth honno gael ei rhannu, dylech ddychwelyd y wybodaeth i'r person sy'n eich cyfarwyddo chi a cheisio cadarnhad bod caniatâd wedi cael ei roi.
- 22** Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'r achos llys oni bai:
- a** bod y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw yn rhoi eu caniatâd (ac ni cheir unrhyw gyfyngiadau eraill ynghylch rhannu'r wybodaeth)
 - b** bod yn rhaid i chi wneud hynny yn unol â'r gyfraith

- c bod llys neu driwlynlys yn eich gorchymyn i wneud hynny
- d bod eich dyletswydd bennaf i'r llys a gweinyddu cyfiawnder yn golygu bod yn rhaid i chi ddatgelu'r wybodaeth.

Gwrthdaro rhwng buddiannau

23 Os bydd gwrthdaro posibl rhwng buddiannau – er enghraifft, rydych wedi cael cyswllt proffesiynol neu bersonol gydag un o'r bobl yn yr achos yn y gorffennol, neu mae gennych chi fudd personol yn yr achos – rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch gwrthdaro rhwng buddiannau.⁸ Yn ogystal, rhaid i chi sicrhau bod y bobl sy'n eich cyfarwyddo chi, y parti arall a'r barnwr yn cael eu hysbysu o hyn yn ddi-oed. Bydd modd i chi barhau i gyflawni rôl tyst arbenigol, dim ond os bydd y llys yn penderfynu na fydd y gwrthdaro rhwng buddiannau yn effeithio ar yr achos.

Cyfeiriadau

- 1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da Llundain*, CMC.
- 2 Yn ogystal, triwlynlysoedd ac ymchwiliadau cyhoeddus eraill megis cwestau crwneriaid.
- 3 *Rheolau Gweithdrefn Sifil, rheol 35.3*, *Rheolau Gweithdrefn Droseddol, rheol 33.2*, *Rheolau Gweithdrefn Deuluol, rheol 25.3*, *Rheolau Gwrandawriadau Plant (yr Alban) 1996*, *Deddf Gohirio (Rheolau Gweithdrefn Droseddol) 1996*, *Gorchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth) (Gogledd Iwerddon) 2004*.
- 4 Mae hyn yn cynnwys eich safbwyntiau am ffordd o fyw, diwylliant neu statws cymdeithasol neu economaidd claf, yn ogystal â'r nodweddion a ddiogelir gan ddeddfwriaeth: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
- 5 Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol pan fydd meddyg yn cyflawni rôl ac eithrio tyst – er enghraifft, fel cynghorydd mewn achos.

- 6 Y Gwir Anrhydeddus Ustus Wall (2007) *A handbook for expert witnesses in Children Act cases* Bryste: Jordans, 2il argraffiad.
- 7 Gweler Oldham MBC v GW & Ors [2007] EWHC 136 (Fam).
- 8 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Trefniadau ariannol a masnachol a gwrthdaro rhwng buddiannau* Llundain, CMC.

Ffynonellau gwybodaeth eraill

Cymdeithas Feddygol Prydain (2008) *Expert witness guidance* Llundain, Cymdeithas Feddygol Prydain

Mae'r cyrff amddiffyn meddygol yn cyhoeddi adnoddau er mwyn cynorthwyo'u haelodau sy'n cyflawni rôl tystion ffeithiol a thystion arbenigol.

Y Gwir Anrhydeddus Ustus Wall (2007) *A handbook for expert witnesses in Children Act cases* Bryste, Jordans, 2il argraffiad

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* Llundain, CMC, ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/confidentiality

Academi Colegau Meddygol Brenhinol www.aomrc.org.uk

Cyngor Cyfiawnder Sifil www.judiciary.gov.uk/about-the-judiciary/advisory-bodies/cjc

Cyngor Cyfiawnder Teuluol www.judiciary.gov.uk/about-the-judiciary/advisory-bodies/fjc

Gwasanaeth Erllyn y Goron (Llawlyfr datgeliadau) www.cps.gov.uk/legal/d_to_g/disclosure_manual

Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr www.lawsociety.org.uk

Cymdeithas y Cyfreithwyr yr Alban www.lawscot.org.uk

Gweinyddiaeth Adroddwr Plant yr Alban www.scra.gov.uk

Rheolau a deddfwriaeth

Cymru a Lloegr

Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003

www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/contents

Deddf Tystiolaeth Sifil 1995

www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/38/contents

Deddf Tystiolaeth Sifil 1995

Rheolau Gweithdrefn Sifil

Rheolau Gweithdrefn Droseddol

Rheolau Gweithdrefn Deuluol

Cyfarwyddyd Arfer ynghylch Arbenigwyr mewn

Achosion Teuluol sy'n Ymwneud â Phlant

Mae modd i chi droi at y dogfennau hyn gan

ddefnyddio'r cyfleuster chwilio ar wefan y

Weinyddiaeth Gyfiawnder

www.justice.gov.uk

Yr Alban

Rheolau Gweithdrefn Droseddol a Rheolau'r Llys

www.scotcourts.gov.uk/library/rules/index.asp

Gogledd Iwerddon

Rheolau'r Goruchaf Lys

Nid yw'r ddogfen hon ar gael ar-lein – cysylltwch â

Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

(**www.opsi.gov.uk**) i gael gwybod sut i gael copi.

Gorchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth)

(Gogledd Iwerddon) 2004

www.legislation.gov.uk/nisi/2004/1501/contents